
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU LLEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

## IS-DDEDDFAU DRAENIO TIR 2018




04/24

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

***Is-ddeddfau Draenio Tir (Cymru)***

# Cynnwys

**Pennod I - Gweinyddu** ....3

1. **Dyfynnu a Dechrau** ....3
2. **Defnyddio'r Is-ddeddfau** .... 3
3. **Diffinio a Dehongli** .... 3
4. **Achosi gweithred neu adael iddi ddigwydd yn fwriadol** .... 5

**Pennod II – Rheoli dŵr newydd ac unrhyw gynnydd yn y llif neu'r cyfaint** .... 5

5. **Rheoli dŵr newydd, newid llif a chyfaint y dŵr** .... 5
6. **Ymyrryd â llifddorau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r llanw** .... 6
7. **Defnyddio cyrsiau dŵr neu waith rheoli'r llanw** .... 6
8. **Arllwysfeydd Llanwol** .... 6

**Pennod III – Perygl posibl o rwystro dŵr rhag llifo** .... 7

9. **Cynnal a chadw glannau cyrsiau dŵr a thir sy'n agored i lifogydd** .... 7
10. **Adeiladu strwythurau, pibellau ac ati ar dir sy'n agored i lifogydd** .... 7
11. **Atgyweirio adeiladau a strwythurau** ....8

**Pennod IV – Gofalu bod glannau cyrsiau dŵr mewn cyflwr da** .... 8

12. **Llystyfiant** ....8
13. **Gyrru anifeiliaid a cherbydau** ....8
14. **Difrod gan anifeiliaid sy'n pori** ....8

**Pennod V – Darpariaethau ychwanegol** .... 8

15. **Rheoli anifeiliaid** ....9
16. **Ymyrryd â swyddogaethau'r awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol]** .... 9

**Pennod VI – Eithriadau** ....9

17. **Gwaith mewn argyfwng** ....9
18. **Datblygiadau cyffredinol a ganiateir** ....9
19. **Ysgolion a thyrrau sgaffaldio** ....9

**Pennod VII – Amodau amrywiol eraill** .... 9

20. **Dirwyon** ....10

## *Is-ddeddfau Draenio Tir (Cymru)*

**Trwy'r pwerau a'r awdurdod sydd wedi'u rhoi iddo yn ôl adran 66 Deddf Draenio Tir 1991, mae [Enw'r Awdurdod Lleol] yn sefydlu'r Is-ddeddfau canlynol am ei fod o'r farn y bydd eu hangen ar gyfer un o'r dibenion isod neu ragor:**

- **a) gofalu bod system ddraenio yn gweithio'n effeithlon yn ardal y Cyngor;**

**b) rheoleiddio effeithiau system ddraenio ar yr amgylchedd yn ardal y Cyngor;**

**c) gofalu bod gwaith rheoli perygl llifogydd yn effeithiol yn ôl ystyr adran 14A y Ddeddf honno; neu**

**d) gofalu bod gwaith sydd wedi'i wneud yn ôl adran 38 neu 39 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (llifogydd cysylltiedig neu erydu arfordirol) yn effeithiol.**

---

### Pennod I - Gweinyddu

### 1. Dyfynnu a Dechrau

Cymeradwywyd yr Is-ddeddfau hyn gan [Enw'r Gweinidog], gellir eu henwi fel Is-ddeddfau Draenio Tir [2016] [Enw'r Awdurdod Lleol] a byddant yn dechrau ar [dyddiad].

### 2. Defnyddio'r Is-ddeddfau

Mae'r Is-ddeddfau hyn yn berthnasol i gyrsiau dŵr cyffredinol yn ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru [neu: dan reolaeth y Ardal Ddraenio Fewnol] sy'n gwneud yr Is-ddeddfau hyn.

### 3. Diffinio a Dehongli

Oni bai am ddiffiniad gwahanol isod neu bod ystyr gwahanol oherwydd y cyd-destun, bydd ystyr geirfa ac ymadroddion yr Is-ddeddfau hyn yr un fath â'r geirfa a'r ymadroddion a geir yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Tir 1991, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Dehongli 1978.

Yn yr Is-ddeddfau hyn:

Bydd ystyr 'glan', 'draenio', 'corff draenio', 'Ardal Ddraenio Fewnol', 'tir', 'awdurdod lleol' a 'chwrs dŵr cyffredin' fel sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Draenio Tir 1991.

**"Y Ddeddf"** yw Deddf Draenio Tir 1991

**"Anifail"** yw unrhyw anifail gan gynnwys adar, unrhyw geffylau, gwartheg, defaid, ceirw, geifr, moch, gwyddau neu ddofednod; ond nid pysgod na phobl;

**"Pellter yr Is-ddeddfau"** yw unrhyw dir sy'n ymestyn o lannau cwrs dŵr (o'i fesur yn llorweddol) fel a ganlyn:

(i) lle mae mur neu glawdd, 8 metr o'r terfyn sydd tua'r tir; neu

(ii) mewn achosion eraill, 8 metr o ben glannau'r cwrs dŵr;

(iii) unrhyw dir sy'n ymestyn 8 metr yn llorweddol o derfyn allanol ceuffos (i'w fesur o ran ehangaf y geuffos honno).

**"Adeilad' neu strwythur'** yw unrhyw strwythur neu unrhyw beth a godwyd, ac unrhyw ran o adeilad a ddiffinnir felly, ond nid yw'n cynnwys offer neu beiriannau sydd ynddo. Mae hefyd yn cynnwys ffensys, pyst, peilonau, muriau, glanfeydd, pontydd, llwyfannau llwytho, polion, grwynau, pontynau, rhagfuriau ac injan neu ddyfais fecanyddol; unrhyw estyllod, ffugwaith, sgaffald neu strwythur arall sydd wedi'i ddylunio neu'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cynnal neu fynediad yn ystod gwaith adeiladu. Bydd unrhyw gyfeiriad at strwythur yn cynnwys rhan o'r strwythur.

**"Caniatâd yr awdurdod"** yw caniatâd ysgrifenedig rhywun sydd â'r awdurdod i'w roi ar ran yr Awdurdod, o flaen llaw, naill ai drwy neges e-bost neu ddogfen ffurfiol, a gallai gynnwys unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n berthnasol ym marn yr Awdurdod hwnnw.

**"Ceuffos"** yw dyfrbibell neu bibell sianel gaeedig i gludo cwrs dŵr ynghyd ag unrhyw strwythur arall sy'n rhan o geuffos gan gynnwys wal y pen, gollyngfa a sgrîn hidlo sbwriel.

**"Clawdd"** yw twmpath naturiol neu artiffisial neu unrhyw amddiffynfa arall sydd wedi'i chodi.

**"Gwaith amddiffyn rhag llifogydd"** yw strwythurau a gwaith amddiffyn rhag llifogydd y môr, yr afonydd a'r glaw gan gynnwys muriau, clwydi, cloddiau neu ffosydd lliniaru a godwyd neu a ddefnyddir at y dibenion hyn yn ogystal â thwyni tywod naturiol neu dwyni tywod â wnaed gan ddyn, strwythurau cadw pridd neu strwythurau a godwyd neu a ddefnyddir i amddiffyn tir rhag llifogydd o ganlyniad i lefelau dŵr sy'n codi.

**"System rhybuddio am lifogydd"** yw unrhyw gyfarpar y mae'r awdurdod yn ei ddefnyddio i gael gwybodaeth am lifogydd neu gyflwyno gwybodaeth o'r fath.

**"Tir sy'n agored i lifogydd"** yw tir y mae dŵr cyrsiau dŵr yn llifo drosto pan fo llifogydd, gan gynnwys ardaloedd lle mae dŵr yn cael ei storio yn ystod llifogydd.

**"Rhwydi"** yw:

(a) rhwyd ffyn, rhwyd fag neu rwyd gadw;

(b) pob rhwyd sydd wedi'i hangori a phob rhwyd a dyfais bysgota arall sydd wedi'i rhwymo i'r pridd neu'n sefyll yn ei hunfan trwy unrhyw ffordd arall;

(c) pob rhwyd y mae'i pherchennog neu rywun arall ag awdurdod y perchennog i'w defnyddio i bysgota, wedi'i gadael mewn dyfroedd llanwol neu fewnol, yn ogystal â phob injan, dyfais, peiriant neu declyn (boed ar wyneb y dŵr neu fel arall) ar gyfer gosod neu ddal rhwyd o'r fath, ei chadw i weithio neu ei chadw yn ei lle.

**"Preswylydd"** yw tenant, daliwr trwydded neu unrhyw un arall sy'n meddiannu unrhyw dir neu sydd â hawl i'w feddiannu.

**"Pethau, gwrthrychau neu ddefnyddiau"** yw unrhyw hylif neu fater solid neu wrthych neu ddefnydd naturiol neu artiffisial, gan gynnwys coed, gwreiddiau coed, canghennau, pren, tuniau, poteli, bocsys, teiars, briciau, cerrig, pridd, weiren a sbwriel.

**"Perchennog"** yw perchennog ystâd yn ôl dehongliad y gyfraith, ac mae'n cynnwys meddiannwr lle nad yw'r perchennog yn ei feddiannu ei hun.

**"Rhywun"** = lle bo'n briodol, mae modd i hyn gyfeirio at fwy nag un unigolyn, gan gynnwys corff o unigolion sy'n gorfforaethol neu heb fod yn gorfforaethol.

**"Amddiffynfa rhag y môr"** yw unrhyw amddiffynfa artiffisial neu naturiol rhag dyfroedd y môr neu ddyfroedd llanwol, gan gynnwys ucheldir artiffisial neu naturiol (gan gynnwys twyni tywod a chlogwyni) ac unrhyw beth sy'n cael ei adeiladu neu ei ddefnyddio fel amddiffynfa rhag llifogydd o'r môr neu ddyfroedd y llanw, neu ar gyfer gwagio cyrsiau dŵr yn ddigonol ac eithrio amddiffynfa forwrol y mae Awdurdod Diogelu'r Arfordir, awdurdod lleol, Porthladd Llywio neu Awdurdod Cadwraeth yn berchen arni neu'n ei rheoli.

**"Gwaith rheoli'r llanw"** yw fflodiard, loc, llifddor neu unrhyw strwythur neu gyfarpar arall sydd wedi'i ddarparu neu ei adeiladu at y diben o amddiffyn yn erbyn dŵr y môr neu ddyfroedd y llanw.

**"Planhigion"** yw coed, helyg, llwyni, chwyn, gweiriau, cyrs, hesg neu lystyfiant arall.

**"Llong"** yw pob llong, cwch a bad sydd ar y dŵr, gan gynnwys hofranlongau ac olion unrhyw longau.

**"Cwrs dŵr"** yw pob afon, ffrwd, ffos, sianel a ffordd arall y mae dŵr yn llifo trwyddi gan gynnwys sianel unrhyw gwrs dŵr sy'n sych am y tro ond heb gynnwys carthffosydd cyhoeddus yn ôl ystyr Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

**"Glan/glannau cwrs dŵr"** yw pob glan, wal, rhagfur neu glawdd sy'n sownd wrth gwrs dŵr neu'n ei gyfyngu o'r pen i waelod y rhan lethrog neu unionsyth.

**"Gwely cwrs dŵr"** yw tir y bydd dŵr yn llifo drosto fel arfer am ei fod yn rhan o gwrs dŵr.

**"Strwythur rheoli dŵr"** yw strwythur neu gyfarpar sy'n gadael i ddŵr lifo i gwrs dŵr ac sy'n rheoli'r llif neu'n effeithio arno, ac mae'n cynnwys unrhyw lifddor, arafwr, fflodiart, loc, cored, pwmp neu beiriant pwmpio.

## 4. Achosi gweithred neu adael iddi ddigwydd yn fwriadol

Pan fydd unrhyw weithred wedi'i gwahardd neu'i chyfyngu gan yr Is-ddeddfau hyn, neu oddi tanynt, bydd yr un gwaharddiad neu gyfyngiad yn wir ar gyfer achosi'r weithred neu'r cyfyngiad neu adael iddynt ddigwydd yn fwriadol.

# Pennod II – Rheoli dŵr newydd ac unrhyw gynnydd yn y llif neu'r cyfaint

## 5. Rheoli dŵr newydd, newid llif a chyfaint y dŵr

**(1)** Heb effeithio ar adrannau 23 a 25 Deddf Draenio Tir 1991, chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:

(a) cau cwrs dŵr; neu
(b) wyro; neu
(c) rwystro; neu
(d) newid; lefel neu gyfeiriad llif y dŵr mewn cwrs dŵr, i mewn iddo neu allan ohono.

**(2)** Yn yr Is-ddeddf hon, mae ‘newid’ yn cynnwys creu neu estyn cwrs dŵr a chyflwyno dŵr sy’n cynyddu llif neu gyfaint y dŵr yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol mewn unrhyw gwrs dŵr yn ardal yr awdurdod lleol.

**(3)** Yn yr Is-ddeddf hon, mae ‘rhwystro’ yw cynnwys cau neu lenwi sianel cwrs dŵr a rhwystro bwa unrhyw bont neu sarn a gynlluniwyd i hwyluso llif dŵr, neu sy’n caniatáu llif dŵr, mewn unrhyw gwrs dŵr neu ar dir sy’n agored i lifogydd.

## 6. Ymyrryd â llifddorau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd a’r llanw

**(1)** Chaiff neb ddefnyddio llifddor, fflodiart, amddiffynfa rhag llifogydd/llanw nac unrhyw strwythur neu gyfarpar arall i reoli dŵr, neu system fonitro neu rybuddio am lifogydd a ddefnyddir i reoli neu fonitro llif dŵr i mewn i gwrs dŵr, trwyddo neu allan ohono nac ymyrryd â nhw, heb ganiatâd yr awdurdod.

**(2)** Yn yr Is-ddeddf hon, mae ‘ymyrryd’ yn cynnwys tynnu deunyddiau sy’n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd neu’r llanw, eu difrodi neu darfu arnynt.

## 7. Defnyddio cyrsiau dŵr neu waith rheoli’r llanw

Rhaid i rywun sy’n rheoli:

(a) llifddor neu fflodiart; neu
(b) unrhyw strwythur neu gyfarpar i reoli neu reoleiddio llif dŵr i mewn i gwrs dŵr, trwyddo neu allan ohono, neu sy’n effeithio arno

ddefnyddio a chynnal a chadw unrhyw strwythur neu gyfarpar o’r fath mewn cyflwr priodol ac effeithlon er mwyn:

(a) atal llifogydd neu unrhyw brinder yn llif neu gyflenwad y dŵr; a
(b) gofalu bod y system ddraenio yn ardal (yr awdurdod lleol/yr ardal ddraenio fewnol) yn gweithio’n effeithlon.

## 8. Arllwysfeydd Llanwol

Chaiff neb ddodi na gadael ar flaendraeth unrhyw wrthrych, ddeunydd neu blanhigyn a allai achosi’r canlynol yn uniongyrchol neu o ganlyniad i symudiadau’r llanw:

(a) rhwystro dŵr rhag llifo trwy’r lifddorau, fflodiart, pibellau arllwysfa, trwy’r glannau llanwol neu drwy’r cyrsiau dŵr ar flaendraeth o’r fath neu fod yn debygol o wneud hynny;
(b) rhwystro llifddorau, fflodiardau neu bibellau arllwysfa o’r fath rhag gweithio neu fod yn debygol o wneud hynny;
(c) difrodi llifddorau, fflodiardau neu bibellau arllwysfa o’r fath neu fod yn debygol o wneud hynny.

---

# Pennod III – Perygl posibl o rwystro dŵr rhag llifo

## 9. Cynnal a chadw glannau cyrsiau dŵr a thir sy'n agored i lifogydd

**(1)** Chaiff neb heb ganiatâd yr awdurdod blannu coeden, gadael neu gadw unrhyw wrthrych neu ddefnydd, cynnau tân nac ymyrryd â gwely neu lannau cwrs dŵr o fewn pellter yr Is-ddeddfau yma mewn modd sy'n debygol o wneud y canlynol:

(a) achosi llifogydd;
(b) rhwystro dŵr rhag llifo; neu
(c) ddifrodi ceuffos, glan cwrs dŵr, gwaith rheoli cwrs dŵr, amddiffynfa rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;
(d) peryglu sefydlogrwydd y rheiny a nodir yn (c) uchod neu wneud unrhyw beth sy'n debygol o effeithio ar eu heffeithlonrwydd.

**(2)** Yn yr Is-ddeddf hon:

Ystyr 'ymyrryd' yw carthu, tynnu, difrodi neu darfu ar ddeunyddiau sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd/llanw neu wely/glan cwrs dŵr yn ogystal â chloddio tir neu wneud unrhyw beth ynddo, iddo neu arno sy'n debygol o ddifrodi gwely/glannau cwrs dŵr.

Ystyr 'cynnau tân' yw gwneud unrhyw beth a allai achosi tân ar dir wrth ymyl cwrs dŵr, lle y mae modd iddo gynnau tân ar unrhyw dir mawn ar lannau'r cwrs dŵr neu losgi unrhyw lystyfiant sy'n tyfu ar dir ar lannau'r cwrs dŵr hwnnw.

Ystyr 'storio unrhyw wrthrychau neu ddeunyddiau' yw gadael, pentyrru neu gadw gwrthrychau a phethau solid neu hylifol gan gynnwys llystyfiant a thoriadau llystyfiant.

Mae 'gwrthrychau' yn cynnwys llongau a chychod.

## 10. Adeiladu strwythurau, pibellau ac ati ar dir sy'n agored i lifogydd

**(1)** Chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:

(a) codi neu adeiladu unrhyw adeilad neu strwythur:

(i) mewn cwrs dŵr, arno, o dano neu drosto nac ar lannau cwrs dŵr;

(ii) o fewn pellter yr Is-ddeddfau;

(iii) ar waith rheoli cwrs dŵr, amddiffynfa rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;

(iv) dros unrhyw ran o geuffos neu o fewn pellter yr Is-ddeddfau ar y naill ochr a'r llall iddi;

(b) cloddio neu wneud neu dorri unrhyw dwnnel, draen, ceuffos neu unrhyw ffordd arall ar gyfer dŵr mewn cwrs dŵr, i mewn iddo, neu allano ohono nac yng nglannau cwrs dŵr na thrwyddynt;

mewn modd neu am gyfnod fydd yn difrodi gwely/glannau'r cwrs dŵr neu'n rhwystro dŵr rhag llifo ynddo, i mewn iddo, neu allan ohono.

**(2)** Fydd yr Is-ddeddf hon ddim yn berthnasol i unrhyw waith dros dro yn ystod argyfwng.

**(3)** Yn yr Is-ddeddf hon:

Ystyr 'argyfwng' yw sefyllfa sy'n berygl dybryd i fywydau neu eiddo.

### 11. Atgyweirio adeiladau a strwythurau

Bydd rhywun sydd â rheolaeth dros adeilad, ffens, neu strwythur mewn cwrs dŵr, ceuffos, glannau cwrs dŵr, gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw, amddiffynfa rhag y llanw neu'r môr (yn ogystal ag arni, o dani neu drosti) yn cadw'r fath adeilad, ffens neu strwythur mewn cyflwr da fel na fydd yn achosi'r canlynol:

(a) rhwystro'r dŵr rhag llifo mewn cwrs dŵr, i mewn iddo neu allan ohono;
(b) difrodi glannau cwrs dŵr, gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr; neu
(c) beryglu gweithwyr (yr awdurdod lleol/ardal ddraenio fewnol) neu eu rhwystro rhag gwneud gwaith i amddiffyn rhag llifogydd

---

## Pennod IV – Gofalu bod glannau cyrsiau dŵr mewn cyflwr da

#### 12. Llystyfiant

Bydd perchennog neu breswylydd tir y mae cwrs dŵr yn llifo trwyddo, tir lle mae amddiffynfa rhag y môr neu dir cyfagos y mae angen i weithwyr yr awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol] ei groesi er mwyn cyrraedd mannau o'r fath, yn cadw trefn ar y llystyfiant o fewn pellter yr Is-ddeddfau ac yn cael gwared ar lystyfiant o'r fath o'r cwrs dŵr neu ei lannau yn syth ar ôl ei dorri, er mwyn sicrhau nad yw'n rhwystro llif y cwrs dŵr.

#### 13. Gyrru anifeiliaid a cherbydau

Chaiff neb ddefnyddio na gyrru cert neu gerbyd o unrhyw fath, ar, dros neu ar hyd glannau gwaith rheoli cwrs dŵr, gwaith diogelu rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr mewn modd sy'n achosi difrod i'r mannau hynny.

#### 14. Difrod gan anifeiliaid sy'n pori

Chaiff neb gadw anifeiliaid, rhoi dŵr iddyn nhw na gadael iddyn nhw bori ar gwrs dŵr, glan neu wely cwrs dŵr, gwaith amddiffyn rhag llifogydd neu amddiffynfa rhag y môr heb:

(a) gymryd pob cam sy'n angenrheidiol i osgoi difrodi'r mannau hynny;
(b) rhoi gwybod i'r awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol] cyn gynted ag sy'n ymarferol, am unrhyw ddifrod i'r mannau hynny yn ganlyniad i gadw anifeiliaid, rhoi dŵr iddyn nhw neu adael iddyn nhw bori yno.

---

# Pennod V – Darpariaethau ychwanegol

## 15. Rheoli anifeiliaid

Bydd perchennog neu feddiannydd/preswylydd tir y mae cwrs dŵr yn llifo trwyddo, tir lle mae yna amddiffynfa rhag y môr neu dir cyfagos y mae angen i weithwyr yr awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol] ei groesi er mwyn cyrraedd mannau o'r fath i wneud gwaith neu archwilio, yn gofalu bod anifeiliaid o dan reolaeth a goruchwyliaeth briodol yn ystod unrhyw waith neu archwilio. Os nad oes modd eu cadw o dan reolaeth a goruchwyliaeth briodol, rhaid gofalu eu bod nhw ddim ar y tir yn ystod gwaith neu archwilio o'r fath.

## 16. Ymyrryd â swyddogaethau'r awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol]

Chaiff neb ymyrryd â'r canlynol:

(a) mynediad i unrhyw dir y mae ei angen ar yr awdurdod lleol [ardal ddraenio fewnol] neu eu hasiantau er mwyn cyflawni eu swyddogaethau rheoli llifogydd, neu (b) gyflawni eu swyddogaethau.

---

# Pennod VI – Eithriadau

## 17. Gwaith mewn argyfwng

Fydd yr Is-ddeddfau hyn ddim yn berthnasol i unrhyw waith i'w gyflawni mewn argyfwng. Fe fydd rhywun sy'n gwneud gwaith sydd wedi'i eithrio i'r perwyl hwnnw yn rhoi gwybod i'r Cyngor yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo modd, am natur ac amgylchiadau'r gwaith, ac yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

## 18. Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir

Fydd yr Is-ddeddfau hyn ddim yn berthnasol i unrhyw ddatblygu gan gorff draenio mewn, ar neu o dan gwrs dŵr neu waith draenio tir sy'n angenrheidiol er mwyn gwella, cynnal a chadw neu atgyweirio'r cwrs dŵr neu'r gwaith hwnnw.

## 19. Ysgolion a thyrrau sgaffaldio

(1) Codi ysgolion a thyrrau sgaffaldio ('cyfarpar').

(2) At ddibenion y paragraff hwn, dyma'r amodau penodol:

(a) rhaid i'r gweithredwr asesu cyflwr yr afon bob diwrnod gwaith;

(b) rhaid adeiladu'r cyfarpar bob diwrnod gwaith y bydd angen ei ddefnyddio;

(c) rhaid symud y cyfarpar ddiwedd pob diwrnod gwaith a'i storio y tu hwnt i'r afon a'i glannau.

---

# Pennod VII – Amodau amrywiol eraill

## 20. Dirwyon

Yn ôl adran 66(6) y Ddeddf, rhaid i bawb sydd wedi'i gael yn euog o weithredu'n groes i unrhyw un/rai o'r Is-ddeddfau blaenorol, neu fethu â chydymffurfio â nhw, dalu dirwy am bob trosedd ac ni ddylai'r ddirwy fod yn uwch na'r hyn sy'n cael ei bennu o bryd i'w gilydd ar gyfer lefel 5 ar y raddfa sydd wedi'i chrybwyll yn adran 37 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982, yn ogystal â dirwy ychwanegol heb fod dros £40 am bob diwrnod y parhaodd y troseddu neu'r methiant i gydymffurfio ar ôl yr euogfarn.  Yn ôl adran 66(7) y Ddeddf, os yw rhywun wedi gweithredu'n groes i unrhyw un/rai o'r Is-ddeddfau hyn neu wedi methu â chydymffurfio â nhw, mae modd i'r Cyngor (heb effeithio ar unrhyw achos sy'n mynd rhagddo o dan adran 66(6) y Ddeddf) gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i gywiro effaith y troseddu neu'r methiant i gydymffurfio, yn ogystal â mynnu i'r sawl sydd wedi troseddu neu fethu â chydymffurfio dalu costau rhesymol sydd wedi codi yn ganlyniad i hynny.